



# Cystadleuaeth Fusnes yr Urdd

Mewn partneriaeth gyda Menter a Busnes bydd cystadlaethau busnes yn cael eu cynnal yn Eisteddfod yr Urdd ac yn agored i unrhyw aelod o'r Urdd o fewn y categorïau oedran isod:

1. Cystadleuaeth Arloeswyr Busnes Blwyddyn 10 a dan 19 oed
2. Cystadleuaeth Arloeswyr Busnes 19 – 25 oed

Bydd angen i ymgeiswyr gael syniad busnes a diddordeb mewn bod yn hunangyflogedig naill ai nawr neu yn y dyfodol.

## Strwythur y gystadleuaeth fydd:

1. Cyflwyno ffurflen gais a deunydd cefnogol (deunyddiau, delweddau, fideo , ayb);
2. Panel o feirniaid ac entrepreneuriaid yn asesu'r ceisiadau;
3. Ymgeiswyr llwyddiannus yn datblygu i'r rownd derfynol ar faes yr Eisteddfod;

## Manylion Pellach: Meini Prawf Mynediad

- Mae'r gystadleuaeth hon yn agored i ymgeiswyr Blwyddyn 10 a 25 oed ar ddyddiad cyflwyno'r cais. Bydd ceisiadau'n cael eu rhannu i'r ddau ddsbarth oedran canlynol:
  - Cystadleuaeth Arloeswyr Busnes Blwyddyn 10 – dan 19 oed
  - Cystadleuaeth Arloeswyr Busnes 19 – 25 oed
- Mae'n rhaid i bob ymgeisydd fod yn aelod o'r Urdd a meddu ar rif aelodaeth i brofi hyn.
- Gall yr ymgeiswyr fod mewn addysg, yn gweithio'n llawn neu rhan-amser, yn ddi-waith, neu eisoes wedi lansio'r syniad busnes yn y 12 mis diwethaf.
- Mae'r gystadleuaeth yn agored i unrhyw syniad busnes cyfreithlon, dyfais, cynnyrch, neu wasanaeth.
- Bydd gofyn i'r syniad busnes fod yn hyfyw, gyda thystiolaeth o ymchwil farchnad i gefnogi hyn.
- Dylech ddangos gwir ddiddordeb mewn hunan gyflogaeth, naill ai nawr neu yn y dyfodol.
- Gall unigolion, partneriaethau neu grwpiau (hyd at 3 person) wneud cais.
- Bydd angen i bob ymgeisydd fod yn gymwys i fyw a gweithio yn y DU.
- Rhaid i'r ceisiadau llwyddiannus sy'n mynd ymlaen i'r Rownd Derfynol fod ar gael i fynychu maes yr Eisteddfod rhwng 10am a 3pm ar y **1af o Fehefin 2017**
- Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw hanner nos ar yr **21ain Ebrill 2017**. Dylid anfon y ceisiadau at: Adran yr Eisteddfod, Gwersyll yr Urdd Glan-llyn, Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd, LL23 7ST neu'n electronig i cyfansoddi@urdd.org
- Rhaid i ymgeiswyr sy'n dymuno tynnu'n ôl o'r gystadleuaeth ar unrhyw gam roi gwybod i'r Urdd ar unwaith.
- Ni chaiff gweithwyr yr Urdd na Menter a Busnes gymryd rhan yn y gystadleuaeth hon.

## RHAN 1 – MANYLION CYSWLLT

Enw			
Cyfeiriad			
Cod Post			
Rhif Ffôn		Ffôn Symudol	
E-bost		Oed	
Rhif Aelodaeth Yr Urdd			

## RHAN 2 – DY FUSNES

CWESTIWN 1: *(dim mwy na 300 gair)*

Rhowch fraslun o'ch syniad busnes, gan gynnwys manylion am y cynnyrch / gwasanaeth a'r sector.

## RHAN 2 – DY FUSNES

CWESTIWN 2: *(dim mwy na 300 gair)*

Pwy fydd eich prif gynulleidfa darged, a pham fydden nhw'n prynu eich cynnyrch neu'ch gwasanaeth?

CWESTIWN 3: *(dim mwy na 300 gair)*

Rhowch fraslun o'ch cynlluniau a beth yw eich gobeithion ar gyfer eich syniad busnes.

CWESTIWN 4: *(dim mwy na 200 gair)*

Pa rinweddau entrepreneuriaidd sydd gennych? Rhowch enghraifft o'r rhain a sut fydden nhw'n eich galluogi i ddatblygu'r syniad busnes yn llwyddiannus?

## RHAN 3 – DATGANIAD

Rydw i / Rydym ni (nodwch enw bob person sy'n yn ymgeisio)

.....  
yn dymuno gwneud cais i fod yn ymgeisydd  
Cystadleuaeth Fusnes yr Urdd

### Tystiaf fod:

1. Y wybodaeth ar y ffurflen gais hon yn wir ac yn gyflawn.
2. Rwyf/Rydym yn cadarnhau ein bod yn gymwys i gymryd rhan yn y gystadleuaeth ac yn cytuno â'r *Telerau ac Amodau* cyfranogi.
3. Wrth gyflwyno'r cais hwn, rwyf / rydym yn cytuno i rhoi fy enw / ein henwau gerbron y Panel o Feirniaid i'w ystyried
4. Os byddaf / byddwn yn llwyddiannus rwyf / rydym yn cytuno i gymryd rhan yn llawn yn y gystadleuaeth ac ymgymryd ag unrhyw weithgaredd hyrwyddo / cyhoeddusrwydd.

Llofnod:

Dyddiad:

Dylid anfon ffurflenni cais wedi'u llenwi ynghyd â'ch allbwn creadigol at [cyfansoddi@urdd.org](mailto:cyfansoddi@urdd.org) cyn hanner nos ar yr **21ain o Ebrill 2017**

*Mae ffurflenni cais mewn fformatau eraill ar gael ar gais.*

# Telerau ac Amodau

## Beirniadu a Diogelu Syniadau

- Bydd y panel beirniadu'n chwilio am unigolion / partneriaethau / grwpiau sydd â syniad busnes i'w ddatblygu.
- Bydd penderfyniadau'r panel beirniadu'n seiliedig ar y meini prawf a nodir yn yr adran Meini Prawf Mynediad.
- Mae penderfyniad y panel beirniadu'n derfynol.
- Bydd y panel beirniadu, ynghyd ag unrhyw aelod o staff sy'n delio â'r cais yn cael ei rwymo gan rwymedigaethau cyfrinachedd a'r deddfwriaethau Diogelu Data perthnasol, sy'n eu hatal rhag datgelu dy wybodaeth i unrhyw un arall.
- Caiff yr holl wybodaeth ei thrin yn gwbl gyfrinachol.
- Yr ymgeiswyr sydd yn gyfrifol am sicrhau fod y cais a'r gwaith a wnaed o ganlyniad i'w hymdrechion hwy yn unig.
- Yr ymgeiswyr sy'n gyfrifol am wneud cais ar gyfer amddiffyn patent mewn perthynas â'r syniad cyn ei gyflwyno i'r gystadleuaeth os ydych yn ystyried bod diogelu patent yn briodol.
- Rhaid i chi gymryd pob cam rhesymol a phriodol i leihau'r perygl o dwyll, lladrad a llygru gyda'ch syniad.
- Nid yw Urdd Gobaith Cymru yn rhoi unrhyw warant ynghylch canlyniad eich cais.

## PROSES FEIRNIADU

### Cam 1: Y broses Ymgeisio

Cyfle i asesu a yw'r syniad yn ddichonadwy, gyda'r potensial i'w ddatblygu yn y dyfodol. Fel rhan o'r broses ymgeisio, bydd angen i chi lenwi'r ffurflen gais a chyflwyno o leiaf un eitem gefnogol e.e. fideo dim mwy na 2 funud o hyd neu ddeunyddiau / delweddau sy'n cyfleu eich syniad ymhellach i'r beirniad.

Bydd y ffurflen gais a'r deunydd cefnogol yn werth cyfanswm o 100 o bwyntiau a bydd y 3 ymgeisydd/ymgeiswyr o'r ddau ddsbarth oedran yn cael eu gwahodd i'r rownd derfynol ar faes Eisteddfod yr Urdd ar y **1af o Fehefin 2017**.

### Cam 2: Y Rownd Derfynol

Yn y Rownd Derfynol bydd gofyn i'r cystadleuwyr buddugol baratoi cyflwyniad ymlaen llaw yn para rhwng 5 a 10 munud a fydd yn rhoi mwy o wybodaeth i'r panel am y syniad, tystiolaeth ymchwil farchnad, sut byddai modd datblygu'r syniad a'u cynlluniau i'r dyfodol. Bydd modd i'r panel ofyn cyfres o gwestiynau yn dilyn y cyflwyniad.

Yn ystod y cam yma, bydd gofyn i'r cystadleuwyr hefyd gymryd rhan mewn tasg ymarferol a fydd yn cael ei osod ar y dydd.

Yn ystod y rownd derfynol, bydd y beirniad yn edrych ar sut ydych yn mesur yn erbyn y rhinweddau canlynol:

#### AGWEDD

- Oes gennych angerdd i sefydlu'r busnes/datblygu'r syniad?
- Pa mor uchelgeisiol ydych chi?
- Oes gennych werthoedd cadarnhaol ar gyfer y busnes? (arferion cyfrifol, ymwybyddiaeth am yr amgylchedd, effaith gymunedol ayyb)
- Sut ydych yn delio gyda rhwystrau a heriau?

#### CREADIGRWYDD

- Syniad busnes arloesol ac ymarferol?
- Dealltwriaeth o'r farchnad, wedi cynnal ymchwil ac wedi gwireddu Pwynt Gwerthu Unigryw (USP) eu hunain?
- Gallu ymateb i friff mewn ffordd greadigol?
- Syniadau clir / dealltwriaeth o farchnata a hyrwyddo?

#### PERTHNASAU

- Gallu rhwydweithio'n effeithiol?
- Sgiliau cyfathrebu effeithiol, y gallu i drafod gyda chyflenwyr ac adeiladu perthynas dda gyda cwsmeriaid?

#### TREFN

- Gweledigaeth glir ar gyfer y busnes?
- Gallu cynllunio a threfnu syniadau a rheoli adnoddau?
- Busnes hyfyw a allai ddarparu incwm?
- Egwyddorion sylfaenol o wneud elw?

Newidiadau i'r Telerau ac Amodau hyn:

Mae Urdd Gobaith Cymru yn cadw'r hawl i newid a chywiro'r Telerau ac Amodau hyn ar unrhyw adeg, heb rybudd nac iawndal. Bydd unrhyw newidiadau'n cael eu postio ar y dudalen hon a gyfrifoldeb ymgeiswyr yw sicrhau eu bod yn ymwybodol o newidiadau o'r fath. Gall Urdd Gobaith Cymru estyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau o fewn rheswm.